

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
Nos Iau 27 Mai 2021

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Michael Williams

Y Cynghorydd Pearl Evans

Cyngor Sir

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (*wedi ymuno yn hwyr*)

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.

Ymddiheuriadau – gan y Cyng. Bleddyn Williams a Paul Rowlinson – gan eu bod yn mynychu cyfarfod 'argyfwng ail gartrefi' wedi ei drefnu gan Cyngor Tref Nefyn.

2. Datgan Diddordeb

Eitem 7-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

3. Materion Brys

Dim i'w drafod.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021, yn ddarostyngedig i ychwanegu o dan eitem 3.1 – Adeiladu tai – y Cyng. Godfrey Northam wedi codi'r mater am cais cynllunio Cae Rhosydd, Llwyn Bleddyn. Y cais wedi ei dderbyn ar sail 30 o dai – 15 ar rhent ac 15 o dai fforddiadwy **ar werth**. Nawr wedi newid i 30 o dai ar rhent. Angen holi Cyngor Gwynedd os oes posibil i'r tenantiaid brynu'r eiddo yn y dyfodol. Gormod o ddatblygiadau tai cymdeithasol yn unig yn yr ardal – Lôn Bach Odro, safle yr Hen Orsaf, **y tir ger Llain y Pebyll** ac rwan Cae Rhosydd. Mae'n amlwg bod y cais wedi ei newid heb ymgynghori gyda'r gymuned leol, nac y Cyngor Cymuned.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Arwyddion newydd Ogwen Bank – Mae'r arwyddion wedi cael eu tynnu lawr, ond angen i'r polion ddod lawr hefyd. Y Clerc wedi siarad gyda'r Adran Cynllunio, sydd am gysylltu gyda'r perchennog unwaith eto.

- 5.2** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn –y llochesi wedi eu harchebu ac rydym yn disgwyl pris gan gcontractwr lleol i’w gosod.
- 5.3** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llauer o dyllau angen eu llenwi. Gwaith ‘patcho’ wedi ei wneud, ond ddim digon da. Twll mawr wedi ymddangos wrth troad Caffi Coed y Brenin hefyd.
- 5.4** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd wedi llenwi’r twll mwyaf, ac mwy na thebyg na gwaith ‘patcho’ fydd yn cael ei wneud ar y gweddill hefyd, yn hytrach na ail-arwynebu’r ffordd. Y Cyng. Paul Rowlinson i erfyn ar Cyngor Gwynedd i wneud y ffordd yn iawn. Trafodwyd hefyd bod cyflwr ofnadwy ar y ffordd o Sgwâr Rachub hyd at Tyddyn Canol.
- 5.5** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i’r draeni. Cyngor Gwynedd am edrych ar wyneb y ffordd pan yn gwneud gwaith ail-wynebu ar y palmentydd.
- 5.6** CCTV Stryd Fawr – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.
- 5.7** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi hefyd. Arwydd Sgwar Buddug am gael ei newid cyn gynted a bo modd. Nid yw’n bosib cael arwyddion stryd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Caffi oherwydd nid ydynt wedi eu cofrestru gyda’r Swyddfa Bost. Penderfynwyd bod y Cyngor yn awyddus i gael rhai answyddogol. Y Clerc i edrych mewn i hyn.
- 5.8** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – llinellau wedi eu gosod oherwydd y loriau oedd yn arfer ymweld a C L Jones. Y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi CL Jones ac am ddisgwyl i weld pwy fydd perchennog newydd y safle a’i drafod gyda nhw.
- 5.9** Diffibriliwr ar gyfer Rachub a Gerlan – wedi cael eu gosod.
- 5.10** Twmpathau ger Llwyn Bedw – wedi cael eu ail-gwneud, ond dal llauer o gwynion eu bod yn rhy uchel. Dal i’w drafod gyda Cyngor Gwynedd.
- 5.11** Cae chwarae Rachub – Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd unwaith eto am yr arian Adran 106: Rhwymedigaethau Cynllunio ar gyfer caniatad cynllunio Llwyn Bedw.
- 5.12** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – ffens/rhwystrau wedi eu gosod ar waelod y llwybr, ond yr aelodau yn meddwl bod angen un neu ddau ychwanegol, er mwyn rhwystro’r ochr gyda gollwng serth. Cyfarfod ar y safle wedi ei drefnu i drafod gyda Cyngor Gwynedd.

6. Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i benodi Uned Archwilio Mewnol, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd unwaith eto fel Archwilydd ar gyfer cyfrifon 2020-21.

7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Pleser oedd derbyn yr adroddiad a darllen am yr holl waith gwych sy’n mynd ymlaen gan Bartneriaeth Ogwen. Diolch unwaith eto i Mel a’r tîm am yr holl waith o amgylch y dyffryn.

8. Adroddiad gan gynrychiolwyr

Cyfarfod SLCC – y Cyng. Godfrey Northam wedi mynychu’r digwyddiad. Cafwyd adroddiad am y prif faterion a godwyd yn y cyfarfod ynglŷn a gweinyddiaeth a phwerau fydd yn effeithio’r Cyngor.

Cyfarfod Archwilio Cymru – Eich tref, eich dyfodol -adroddiad byr o’r cyfarfod wedi ei roi gan y Cyng. Godfrey Northam. Diolch iddo am yr adroddiad.

9. Maes parcio Gerlan

Dim diweddariad wedi ei dderbyn ynglŷn a’r cais am fenthyciad i’r Llywodraeth. Derbyniwyd gohebiaeth yn egluro’r oedi gyda’r cais cynllunio.

10. Diffibrilwyr Braichmelyn a Carneddi

Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am gael gosod diffib ar bolyn ar y tir wrth ochr Y Sior yn Carneddi, ac mae hyn yn bosib. Disgwyl i glywed gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd ynglŷn a gosod polyn wrth y lloches bws ger Pont Tŵr. Yr aelodau eisiau gwneud ymholiadau am ei osod ble oedd y ciosg ym Mraichmelyn.

11. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynoded o ohebiaeth Mai 2021'

11.1 Ebst gan Cyfoeth Naturiol Cymru – dyddiad cau ar gyfer sylwadau wedi ei ymestyn hyd at 14eg Gorffennaf. Nodwyd yr ohebiaeth.

11.2 Ebst gan Iechyd Cyhoeddus Cymru– Arolwg Gwirfoddolwyr – 'Dysgu gwersi o'r ymateb cymunedol i Covid 19 yng Nghymru'. Yr aelodau i ymateb fel unigolion.

11.3 E-bost gan Grŵp Cynefin -diweddariad ar y gwaith adeiladu ar safle Yr Hen Orsaf ac hefyd yn holi os mai 'Llety'r Adar' yw'r enw mae'r Cyngor dal yn ddewis i'r safle. Penderfynwyd bod hwn yn enw addas.

11.4 E-bost gan y Cyng. Michael Williams – maes parcio Lôn Groes – cais i lenwi'r tyllau a gosod llinellau parcio. Hefyd car yno sydd gyda datganiad 'SORN' arno. Y Cyng. Paul Rowlinson am wneud ymholiadau ynglŷn a chael llinellau ar gyfer datrys y broblem o barcio blêr ar y safle. Adroddwyd bod y car 'SORN' wedi ei symud.

11.5 Gohebiaeth gan Cyngor Cymuned Llanllechid, Cyngor Gwynedd a Menter Iaith Dyffryn Ogwen ynglŷn a cais cynllunio Cae Rhosydd. Y Cyngor yn cefnogi Cyngor Cymuned Llanllechid. Y Cyngor yn awyddus i drefnu cyfarfod gyda cynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Bethesda a Llanllechid a'r Cyngorwyr Sir i drafod gyda Adra yr angen i gadw'r balans o dai ar rhent a tai ar werth sy'n cael eu datblygu yn y plwy.

11.6 Ebst gan y Cyng. Ann Williams ynglŷn a gosod meinciau yn Stryd y Ffynnon a Pont Waun. Y Clerc i wneud ymholiadau.

11.7 Ebst gan Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn. Yr aelodau i ymateb yr ymgynghoriad fel unigolion.

12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C20/0716/13/LL

1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0152/13/LL

4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghyd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0805/13/LL

Tir ger Gwernydd, Gerlan

Cais ar gyfer adeiladu maes parcio

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0087/13/DT

Ty'n Llan, 17a Pant Glas, Bethesda

Cais i godi estyniad deulawr i ochr yr eiddo.

Penderfyniad: Ar y gweill.**C21/0083/13/DT**

Craig Ogwen, Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda

Cais ar gyfer codi tŷ gwydr i gefn yr eiddo.

Penderfyniad: Ar y gweill.**C21/0338/13/LL**

100 Ffordd Carneddi, Carneddi, Bethesda

Estyniad deulawr yn y cefn

Penderfyniad: Ar y gweill.**Ceisiadau****C21/0422/13/DT**

Bryn Tirion, 14 Ffordd y Mynydd, Rachub

Cais ar gyfer dymchwel modurdy unllawr bresennol a chodi adeilad deulawr yn cynnwys modurdy dwbl gyda anecs ar y llawr cyntaf

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.**C21/0048/13/DT**

31 Erw Las, Bethesda

Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniad deulawr a sengl yn ei le

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad**C21/0505/13/DT**

1 Glan Ogwen, Bethesda

Cais ar gyfer dymchwel estyniad ochr unllawr a chodi estyniad unllawr yn ei le.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad**13. Taliadau****Awdurdodwyd y canlynol**

Cyflogau (Mai)

£315.33

CThEM (Mai)

£79.00

Partneriaeth Ogwen

£17112.17

SLCC

£36.00